



Cymru
National Day Nurseries Association

**★ Meddwl mwy disglair
ar gyfer y blynyddoedd cynnar**

NDNA 2018/19

Arolwg Gweithlu Cymru





Cymru

National Day Nurseries Association

Yn NDNA, nid yn unig rydym yn darparu aelodaeth meithrin, yn lobio'r llywodraeth ac yn cynnig hyfforddiant, rydym yn ymroddedig i wneud gwahaniaeth.

Rydym yn elusen sy'n credu mewn ansawdd a chynaliadwyedd felly rydym yn rhoi busnesau ein haelodau wrth galon ein busnes ni. Rydym yn gwella, cefnogi, meithrin, trysori a herio. Mae ein syniadau arloesol yn rhoi mantais i'ch meithrinfa, mantais sy'n ei gwneud y gorau y gall fod.

Yn syml iawn, ni yw'r bobl y tu ôl i'r bobl sy'n gofalu, ac yn hyrwyddo'r gorau i'n plant.

Darganfyddwch fwy yn www.ndna.org.uk



Cynnwys

CYFLWYNIAD	5
------------	---

PRIF GANFYDDIADAU	5
Heriau Recriwtio a swyddi gwag	6
Gwneuthuriad y gweithlu gofal plant a'r blynyddoedd cynnar	8
Trosiant a chadw Staff	10
Effaith Lleiafswm Cyflog Cenedlaethol a Chyflog Byw a rhyddhad ar drethi busnes	12
Hyfforddi a Datblygiad Proffesiynol Parhaus	13
Undeb Ewropeaidd a Brexit	14

CANLYNIADAU	14
-------------	----

ARGYMHELLION	15
--------------	----





“Yn NDNA Cymru ein gweledigaeth yw i bob plentyn a theulu ffynnu trwy ofal a dysgu blynyddoedd cynnar rhagorol. Mae tystiolaeth yn dangos mai gweithlu cymwys, medrus a llawn cymhelliant yw’r allwedd i ddarparu’r canlyniadau gorau posibl i blant. Fodd bynnag, mae ein harolwg diweddaraf yn datgelu bod meithrinfeydd yng Nghymru yn ei chael hi’n anodd recriwtio mewn meysydd allweddol.

Mae darparwyr gofal plant a blynyddoedd cynnar yn y sector nad yw’n cael ei gynnal yn dweud wrthym nad yw’n hawdd recriwtio’r staff sydd eu hangen arnynt ar y lefel y maent ei eisïau. Mae galw mawr am staff cymwysedig Lefel 3 a recriwtio ar y lefel yma yw’r her mwyaf. Canfu ein harolwg hefyd bod y staff yma, yn hytrach na staff eraill, yn fwy tebygol o adael am borfeydd eraill neu newydd.

Mae cyflwyno’r Cynnig Gofal Plant i Gymru wedi creu galw ychwanegol am oriau gofal plant ond mae hefyd yn tynnu sylw at y gwahaniaeth rhwng y cyllid sydd ar gael ar gyfer yr elfen hon o’i gymharu â’r Cyfnod Sylfaen. Os yw darparwyr i fod yn gynaliadwy, yn gallu cynnig gofal a chysondeb i blant, a dewis i rieni yna dylai’r ddwy gyfradd gael eu halinio’n llawn ledled Cymru.

Mae pob darparwr yn rhannu amcanion Llywodraeth Cymru o ddarparu lleoedd gofal plant fforddiadwy a hygyrch o ansawdd uchel. Byddwn yn parhau i gefnogi ein haelodau a rhanddeiliaid eraill fel y gallwn barhau i ddenu mwy o’r bobl iawn i’r sector ac yna eu datblygu i fod yn arweinwyr blynyddoedd cynnar y dyfodol.”

Purnima Tanuku OBE, Prif Weithredwr NDNA



Rydym yn gwybod bod gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar o ansawdd uchel yn gwella cyfleoedd bywyd i blant ifanc ac yn darparu cefnogaeth i rieni. Mae gofal plant o ansawdd uchel a ddarperir gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n dda, yn derbyn sicrwydd yn eu gweithle ac yn cael eu gwobrwyo'n briodol, yn cynhyrchu gwell canlyniadau i'n plant ieuengaf. Mae gweithlu blynyddoedd cynnar a gofal plant medrus a gwybodus yn darparu'r sylfaen gref sydd ei hangen ar blant yn y pum mlynedd gyntaf i gefnogi eu datblygiad trwy gydol eu taith addysgol. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi pwyslais mawr ar flynyddoedd cynnar a gofal plant, gan gydnabod y rôl hanfodol y mae'n ei chwarae ym mywydau teuluoedd yng Nghymru. Mae gofal plant fforddiadwy, ar gael yn hawdd ac o ansawdd uchel, yn darparu cyfleoedd ar gyfer datblygiad plant ac yn rhoi cefnogaeth sydd ei fawr angen ar deuluoedd.

Mae'r Arolwg Gweithlu NDNA Cymru hwn yn edrych ar wneuthuriad, lefelau cymwysterau, cymhellion a heriau'r gweithlu mewn meithrinfeydd a lleoliadau gofal plant eraill ledled y wlad. Gyda chyflwyno'r Cynnig Gofal Plant i Gymru wedi'i gwblhau a Chwricwlwm drafft newydd ar gyfer Cymru 2022, yn cynnwys pob plentyn rhwng 3 a 16 oed yn cael ei gyhoeddi, mae hwn yn amser hanfodol i'r sector blynyddoedd cynnar a gofal plant. Mae'r arolwg hwn yn ymdrin â data gan ddarparwyr sy'n gweithredu ledled Cymru gyda'r rhai sy'n ymateb yn cynrychioli 118 o leoliadau blynyddoedd cynnar ac yn gyfrifol am gyflogi dros 1,350 o staff sy'n darparu lleoedd i fwy nag 8,000 o blant.

Canfyddiadau Allweddol


- Yr her fwyaf sy'n wynebu lleoliadau blynyddoedd cynnar yw recriwtio staff cymwys a phrofiadol. Dywedodd dros ddwy ran o dair o'r ymatebwyr fod ganddynt broblemau wrth recriwtio staff Cymwysedig Lefel 3
- Mae cyflogwyr yn nodi bod llai o anhawsterau recriwtio staff gyda chymwysterau eraill
- Mae gan dros 83% o'r gweithlu mewn lleoliadau heb eu cynnal, gymwysterau Lefel 3 neu'n uwch yn unol â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant wedi ei Reoleiddio (SGC) ac mae staff â chymwysterau Lefel 3 yn cynrychioli 59% o'r gweithlu cyfan.
- Mae llai na 5% o weithlu'r blynyddoedd cynnar yn ddynion
- Mae trosiant staff yn broblem yng Nghymru gyda chyfradd o 19.4% sy'n costio amcangyfrif o £59.6m i'r sector gofal plant cyfan
- Mae cynnydd mewn isafswm cyflog a gofynion pensiwn yn gwthio costau cyflogwyr ymhell uwchlaw cyfradd chwyddiant
- Oherwydd bod costau eraill yn cynyddu, mae lleoliadau blynyddoedd cynnar yn bwriadu cadw costau hyfforddi staff ar lefelau tebyg i'r llynedd. Os yw newidiadau ar y gweill maent yn fwy tebygol o ostwng yn hytrach na chynyddu cyllidebau hyfforddi
- Mae rhyddhad ardrethi busnes yn helpu'r sector i aros yn gynaliadwy, cadw costau'n is neu fuddsoddi mewn gwella ansawdd
- Mae ansicrwydd Brexit yn achosi i rai cyflogwyr golli staff ond mae'r niferoedd yn isel ar hyn o bryd

Heriau Recriwtio

Ar draws Cymru, mae'r sector blynyddoedd cynnar heb ei chynnal yn dweud bod problemau wrth recriwtio staff ar y lefelau maent ei angen. Mae'r her mwyaf wrth recriwtio staff gyda chymhwyster Lefel 3, gyda 66.2% o'r rhai

wnaeth ymateb yn cytuno eu bod wedi wynebu problemau wrth recriwtio ar y lefel yma. Yn ail i hyn, mae problemau wrth recriwtio staff gyda chymhwyster Lefel 2 gyda 26.5% yn nodi bod problemau wrth recriwtio ar y lefel yma.

% o gyflogwyr yn nodi problemau recriwtio



Darparwr Meithrinfa

“Mae cael staff o ansawdd da i gyfarfod y cyfraddau staffio a datblygu pob rhan o'r feithrinfa, yn parhau yn broblem enfawr”

Mae Llywodraeth Cymru wedi llwyddo i gyflwyno ei Chynnig Gofal Plant i Gymru yn gynt na'r disgwyl, sy'n golygu y gall pob rhant cymwys sy'n gweithio ledled Cymru gael mynediad at hyd at 30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant am 48 wythnos o'r flwyddyn.

O ganlyniad i'r polisi hwn, mae llawer o ddarparwyr wedi gweld cynnydd mewn defnydd o'r gwasanaeth gan olygu eu bod wedi cynyddu oriau'r staff presennol neu wedi bod angen recriwtio mwy o bobl. Gallai hyn fod wedi cyfrannu at y galw am staff cymwys Lefel 3 ac wedi bod yn ffactor yn yr heriau recriwtio y mae'r sector yn eu hwynebu ar gyfer pobl sydd â'r cymhwysterau hyn.

Mae dadansoddiad manwl o'r ymatebion ar ba mor anodd yw recriwtio yn dangos bod

darparwyr yn ei chael hi'n lleaif anodd dod o hyd i staff heb gymhwys. Nododd bron i dri chwarter (73.9%) y darparwyr eu bod wedi recriwtio staff heb gymhwys dros y 12 mis diwethaf a dywedodd 58.9% nad oeddent wedi wynebu heriau wrth wneud hyn.

Ar yr un pryd gwelwn ddarlun o weithlu mwy sefydlog unwaith y bydd staff yn fwy cymwys. Nododd dros hanner yr ymatebwyr nad oeddent wedi gorfod recriwtio ar lefel Lefel 4, Lefel 5, Graddedig neu Reolwr Meithrin yn ystod y 12 mis diwethaf. Gallai hyn fod oherwydd bod mwy o sefydlogrwydd yn y rolau hyn

Mae'r ffigurau hyn yn adlewyrchu rhai o ganfyddiadau Ymchwil Llywodraeth Cymru ar Goblygiadau Brexit ar Weithgor Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant yng Nghymru¹. lle nododd 47% o'r ymatebwyr ei bod yn 'weddol' neu'n 'anodd iawn' recriwtio i swydd gofal plant yn y 12 mis diwethaf. Gan dorri'r gweithlu i lawr, y staff ar raddfa 'ymarferdydd gofal plant' oedd y rhai y cafodd cyflogwyr yr anhawster mwyaf i'w recriwtio. Mae arolwg gweithlu NDNA Cymru hefyd wedi dangos bod yr heriau ar eu mwyaf ar y lefel hon.

1. <https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-03/implications-brexit-social-care-and-childcare-workforce.pdf>

Heriau recriwtio yn ôl lefel cymhwyster



Swyddi gwag

Swyddi Gwag yn y Gweithlu

Gan adrodd ar swyddi gwag cyfredol yn y sector, dangosodd data gan gyflogwyr bod 0.68 swydd wag ar gyfartaledd ym mhob lleoliad. Yn seiliedig ar nifer y swyddi gwag a nodwyd a'r gweithlu presennol, amcangyfrifir bod 5.5% o swyddi yn y sector yn wag ar hyn o bryd. Mae hyn yn cyfateb i 935 o swyddi gwag yn seiliedig ar amcangyfrif Llywodraeth Cymru o 17,000 o bobl yn gweithio ym maes gofal plant ledled Cymru.²



935

o swyddi gwag ar draws Cymru

Mae

5.5%

o swyddogaethau yn y sector yn wag

“Problem go iawn yw y trafferthion rydym yn ei gael i ganfod staff profiadol a chymwys”

Perchennog Meithrinfa

2. <https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-03/implications-brexit-social-care-and-childcare-workforce.pdf>

Gwneuthuriad y Gweithlu Blynyddoedd Cynnar: Cymwysterau


Mae 'Cynllun Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar' deng mlynedd Llywodraeth Cymru yn nodi'r uchelgais i:

“Ddatblygu gweithlu gofal plant a chwarae medrus, sy’n cael ei ystyried yn broffesiwn ac yn yrfa o ddewis ac sy’n cael ei gydnabod am y rôl hanfodol y mae’r sector yn ei chwarae wrth gefnogi datblygiad ein plant.”³

I wneud hyn fe wnaethant gyhoeddi cynllun i ddenu recriwtiaid o ansawdd uchel i'r sector trwy ymgyrchoedd fel 'Gofal Cymdeithasol Cymru' 'Gofalwn' ac i godi safonau a sgiliau yn y gweithlu.

Wrth edrych ar lefelau cymwysterau yn y gweithlu blynyddoedd cynnar, canfu arolwg NDNA fod mwyafrif helaeth y rhai sy’n gweithio gyda phlant yn gymwys i Lefel 3 (59%) ac yna mae staff Lefel 5 yn cynrychioli 16% o'r gweithlu. Mae'r rhai sydd â chymwysterau Lefel 3 neu'n uwch yn cyfrif am 83.1% o'r holl staff.

Lefelau Cymwysterau y gweithlu



Mae'r rhai sy'n gadael eu cyflogaeth yn y sector heb ei gynnal yn bennaf yn staff sydd wedi eu cymhwyso i Lefel 3. O ystyried bod y staff hyn yn 58.9% o'r gweithlu cyffredinol, mae hyn i'w ddisgwyl ond maent yn cyfrif am bron i ddwy ran o dair o'r holl ymadawyr (64%). Mae hyn yn golygu eu bod yn fwy tebygol o newid swyddi na lefelau

eraill o staff a fydd yn cyfrannu at yr heriau recriwtio i gyflogwyr.

Arwahân i swyddi sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda gofal plant - fel y rhai sy'n gweithio ym maes paratoi bwyd, gweinyddu a glanhau a chynnal a chadw – roedd rhain yn cynrychioli 6.8% o gyfanswm y gweithlu.


3. <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-07/early-years-workforce-plan.pdf>



Cyfansoddiad gweithlu'r blynyddoedd cynnar: Dynion mewn gofal plant

Dywedodd ymatebwyr fod 4.87% o'r gweithlu ar hyn o bryd yn cynnwys dynion sy'n gweithio ym maes gofal plant. Mae 'Cynllun Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar' Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn glir y gall creu gweithlu mwy amrywiol gael effaith gadarnhaol ar blant.

Dynion yn y gweithle



*"Byddai recriwtio mwy o ddynion i'r gweithlu yn darparu cylch dylanwad lle bydd gan fechgyn fwy o fodelau rôl gwrywaidd yn dylanwadu arnynt yn y blynyddoedd cynnar ac felly byddant yn edrych ar yrfa mewn gofal plant ac yn chwarae'n fwy cadarnhaol yn y dyfodol."*⁴


4. <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-07/early-years-workforce-plan.pdf>

Trosiant staff a dal gafael ar staff

Y trosiant staff ymysg y gweithlu gofal plant a'r blynyddoedd cynnar yng Nghymru yw'r isaf welwyd ar draws Lloegr, yr Alban a Chymru yn ystod 2018/19. Yn ystod y flwyddyn,

gwnaeth 86% o'r ymatebwyr nodi bod o leiaf un aelod o staff wedi gadael, tra bod 14% o ymatebwyr heb neb wedi gadael yn ystod y 12 mis blaenorol.

Trosiant Staff yn y 12 mis blaenorol



● O leiaf 1 aelod o staff wedi gadael

Yn seiliedig ar nifer y staff yr adroddwyd amdanynt yn gadael yn ystod y flwyddyn, amcangyfrifir bod trosiant y gweithlu oddeutu 19.4%. Mae disgwyl rhywfaint o drosiant staff bob amser wrth i bobl symud, newid gyrfaedd neu ymddeol. Adlewyrchir sefydlogrwydd y gweithlu yng Nghymru yn nifer yr ymatebwyr sy'n dweud wrthym nad ydyn nhw wedi gorfod recriwtio yn arbennig ar gyfer staff mwy cymwys.

Mae cyfradd trosiant gweithwyr cyfartalog y DU oddeutu 15-18%⁵ y flwyddyn, gan roi meithrinfeydd yng Nghymru ychydig yn uwch na'r ffigur hwn. Fodd bynnag, mae arolygon gweithlu NDNA wedi canfod bod y trosiant


● Neb wedi gadael

yr adroddwyd amdano yn uwch yn Lloegr (24%) a'r Alban (29%) yn yr un cyfnod.

Wrth i blant dyfu a datblygu mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar, mae'r berthynas a'r agosatrwydd rhyngddynt a gweithwyr allweddol yn hanfodol bwysig. Ar yr un pryd, mae trosiant staff yn bryder ynghylch sut mae sefydliadau'n gweithredu gyda chostau recriwtio, amser hyfforddi a llai o gynhyrchiant staff newydd wrth iddynt ymsefydlu. Mae hyn yn golygu bod trosiant uchel yn cael effaith niweidiol ar y plant yn ogystal â gofal plant a lleoliadau blynyddoedd cynnar.

5. <https://www.shrm.org/hr-today/trends-and-forecasting/research-and-surveys/Documents/2017-Human-Capital-Benchmarking.pdf>

Arolwg Gweithlu NDNA Trosiant staff ar draws y DU



Mae'r trosiant hwn o staff yn cynhyrchu cost sylweddol i'r darparwr sector preifat a'r trydydd sector. Amcangyfrifodd ymchwil gan Oxford Economics yn 2014, yn y sector manwerthu, bod gweithiwr cyffredin yn y DU sy'n ennill £ 25,000 yn costio £ 20,144 i gael rhywun yn eu lle gan gymryd i ystyriaeth gostau recriwtio, hyfforddiant, amser gweithwyr eraill a cholli cynhyrchiant wrth i staff newydd ymsefydlu. Gall amser gwerthfawr staff a rheolwyr profiadol gael ei dreulio yn dod o hyd i recriwtiaid addas a hyd yn oed os oes ganddyn nhw'r hyfforddiant cywir a'r profiad, mae'n parhau i gymryd amser i staff newydd ymsefydlu, dod yn gyfarwydd gyda'u man gwaith newydd, y polisiau a'r ffordd newydd o weithio.

Mae'r sector manwerthu yn aml yn cael ei gymharu â blynyddoedd cynnar a gofal plant mewn perthynas â thâl ac amodau staff, er gwaethaf cymhwyster, sgiliau a chyfrifoldebau'r gweithwyr proffesiynol hyn.

Gan ystyried chwyddiant ers 2014 a chyflog cyfartalog wedi'i hysbysebu o £ 15,300 ar gyfer swyddi fel 'ymarferydd blynyddoedd cynnar', 'gweithiwr meithrinfa' neu 'gynorthwyydd blynyddoedd cynnar', gellir ystyried bod y trosiant hwn o 19.4% yn costio fel amcangyfrif i'r sector blynyddoedd cynnar cyfan, £ 59.6 miliwn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn unig. Mae hyn yn seiliedig ar amcangyfrif Llywodraeth Cymru o 17,000 o bobl yn gweithio ym maes gofal plant ledled Cymru.⁶ Yn unigol mae'n cyfateb i amcangyfrif o £ 12,300 fesul pob un aelod o staff.

Côst i'r sector

Côst hysbysebu
swydd
ymarferydd
cynnar/
cymhorthydd ar
gyfartaledd

£15,300

YN COSTIO



£12,300

I gael rhywun
newydd mewn
swydd gan gynnwys
costau recriwtio,
hyfforddiant a
chostau eraill

Mae trosiant staff o

19.4%

wedi costio

£59.6 miliwn


i'r sector yn y flwyddyn
ddiwethaf yn unig

6. <https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-03/implications-brexit-social-care-and-childcare-workforce.pdf>

Effaith Isafswm Cyflog a Chyflog Byw Cenedlaethol

Daeth yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol (NMW) i rym ar 1 Ebrill 1999 ac ers Ebrill 2016 ychwanegwyd ato gan y Cyflog Byw Cenedlaethol (NLW) ar gyfer y rhai sy'n 25 oed neu'n hŷn. O Ebrill 2019 roedd y lefelau isafswm cyflog fel a ganlyn:

Lefelau Cyflog Isaf



Yn ychwanegol at godiadau NMW a NLW, cododd costau cyflogaeth rhwng 2018/19 a 2019/20 oherwydd bod cyfraniadau pensiwn cyflogwyr yn codi o 2% i 3% o gyflog gweithiwr.

Mae ein harolwg yn dangos bod mwyafrif (53.8%) lleoliadau blyneddoddd cynnar yn disgwyl i'w costau staff godi uwchlaw cyfradd chwyddiant rhwng 3 - 6% o ganlyniad i'r newidiadau hyn. Mae un o bob pump (20%) yn credu y bydd y costau hyn yn codi 9 - 10% tra bod bron i 14% o'r ymatebwyr yn credu y gallai eu costau godi mwy na 12%.


Mae'r arolwg hwn wedi datgelu heriau i gyflogwyr sy'n ceisio recriwtio staff Lefel 3 wrth iddynt weithio i gwrdd â'r cynnydd mewn plant sydd wedi eu lleoli yn y meithrinfeydd o ganlyniad i'r Cynnig Gofal Plant i Gymru ac maent yn gweld trosiant uwch ymhlith y grŵp hwn. Gallai'r ffactorau hyn ochr yn ochr â'r angen i gynnal gwahaniaethau cyflog uwchlaw lefelau NMW a NLW, gyfrif am y rhai sy'n gweld eu costau staff yn codi mwy na 10%.

Mae'r codiadau hyn mewn costau staff ymhell y tu hwnt i'r gyfradd chwyddiant safonol sydd wedi bod rhwng 1.8% - 2.4% trwy 2018/19. Mae hyn yn codi pris costau busnes eraill fel nwyddau, gwasanaethau, rhent a chyfleustodau y mae angen i feithrinfeydd eu talu i weithredu.

“Mae heriau gwirioneddol gyda thalu cyflogau a phensiynau. Mewn 30 mlynedd mae'n debyg mai dyma fydd y mis Medi cyntaf y bydd yn rhaid i mi gael gwared ar staff yn llwyr oherwydd bod costau staff yn rhy uchel”

Cyflogwr mewn meithrinfa

Effaith disgwyliedig ar gostau staffio



Cyfraddau Busnes - effaith rhyddhad 100%

O Ebrill 2019, mae Llywodraeth Cymru wedi eithrio busnesau gofal plant cofrestredig rhag talu ardrethi busnes. Cynhaliwyd arolwg ym mis Mai a mis Mehefin ynghylch effaith y newidiadau. Roedd dwy ran o dair (65%) o'r ymatebwyr, a oedd wedi derbyn y rhyddhad yn y gyfradd busnes, yn gallu darparu enghreifftiau cadarnhaol o'i effaith ar eu cynaliadwyedd. Adroddodd darparwyr eu bod wedi gallu buddsoddi yn eu staff, cynnig mwy o hyfforddiant neu gadw ffioedd i rieni yn is. Amlygodd ymatebwyr eraill ei fod wedi eu helpu i gadw eu pen uwchben y dŵr fel busnes trwy wneud iawn am ddiffygion mewn cyllid. Yr arbediad cyfartalog yr adroddwyd arno oedd £ 8,204.


Cyfartaledd arbedion o ganlyniad i'r Rhyddhad Cyfradd Busnes o 100%



£8204

Hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Cynlluniau gwario ar ddatblygu staff



Mae cynllun Gweithlu Blynnyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae Llywodraeth Cymru yn cydnabod datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) fel llwybr tuag at gofrestru proffesiynol y gweithlu.

Mae ymatebwyr i'r arolwg yn awgrymu bod mwyafrif y lleoliadau nad ydynt yn cael eu cynnal yn disgwyl cadw gwariant ar hyfforddiant a datblygu staff ar yr un lefel â'r llynedd. Mae mwyafrif yr ymatebwyr (52.3%) yn disgwyl gwario symiau tebyg i'r llynedd. Mae cyfran fwy yn disgwyl gwario llai ar hyfforddi staff (26.3%) na mwy (21.5%).

Mae cyllid yn ffactor allweddol, mae'n destun pryder bod 26.3% yn disgwyl gwario llai ar hyfforddi staff a 52.3% i wario symiau tebyg â'r llynedd, gyda chostau busnes cynyddol mewn meysydd eraill yn ffactor posibl. Gyda staff yn cyfrif am 70-80% o gyllideb gyffredinol darparwyr, bydd unrhyw gynnydd yma yn gwasgu costau mewn meysydd eraill, yn yr achos hwn datblygiad staff.

"Nid yw costau gweinyddol ac amser i redeg y Cynnig Gofal Plant yn cael ei adlewyrchu yn y gyfradd ariannu"

Darparwr Meithrinfa

UE a Brexit

Ymhlith y staff a gyflogwyd gan ymatebwyr i'r arolwg dim ond 2% o'r gweithwyr oedd yn dod o wledydd yr UE y tu allan i'r DU. Amcangyfrifodd adroddiad Llywodraeth Cymru 'Ymchwil ar Goblygiadau Brexit ar Weithlu Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant yng Nghymru' fod 4.5% o bobl a gyflogir yn y sector gofal plant yng Nghymru yn ddinasyddion o'r UE ond nid o'r DU.

Wrth edrych ar effaith Brexit, dywedodd 6.7% o gyflogwyr sy'n cyflogi staff o'r UE eu bod wedi gweld aelod o staff yn gadael oherwydd ansicrwydd Brexit.

Casgliad

Wrth i gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer ehangu'r Cynnig Gofal Plant gael eu cyflwyno'n llawn a bod gwaith newydd yn parhau o ran gwella ansawdd, mae'r arolwg hwn wedi dangos mai'r prif bryder i ddarparwyr blynyddoedd cynnar yw cael y staff iawn i'w lleoliadau. Mae NDNA Cymru yn croesawu Cynllun Gweithlu Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae deng mlynedd Llywodraeth Cymru a'r ymrwymiad, y buddsoddiad a'r gefnogaeth y maent yn eu darparu i'r sector yng Nghymru.

Mae'r rhyddhad ardrethi busnes yn cefnogi cynaliadwyedd y sector ac mae cyflwyno'r Cynnig Gofal Plant i Gymru wedi gweld mwy o lefydd yn cael eu llenwi mewn sawl lleoliad. Er mwyn cyflawni'r gofyn ychwanegol yma mae angen oriau staff ychwanegol ac o bosibl yr angen i recriwtio mwy o staff fel y dangosir gan yr heriau cyfredol wrth ddod o hyd i weithwyr cymwys Lefel 3 addas.

Os nad yw lleoliadau nad ydynt yn cael eu cynnal yn gallu recriwtio digon o staff ar y lefelau cywir, gallai hyn danseilio uchelgais Llywodraeth Cymru ar gyfer gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar sydd o ansawdd uchel, yn hawdd cael ato, yn fforddiadwy ac yn hyblyg i rieni.

Mae mwy o sefydlogrwydd yn y gweithlu blynyddoedd cynnar yng Nghymru, yn enwedig ymhlith staff mwy cymwys. Ar yr un pryd, mae'r gweithlu nas cynhelir yng Nghymru yn gyffredinol yn fwy cymwys nag mewn rhannau eraill o'r DU. Mae'n amlwg bod y sector nas cynhelir yn hanfodol i ddarparu lleoedd o ansawdd uchel i blant ledled y wlad.

Mae croeso i'r buddsoddiad yn ymgyrch atyniad a recriwtio genedlaethol 'Gofalwn' Gofal Cymdeithasol Cymru. Er bod cefnogaeth i brosiect NDNA Cymru – 'Mae Gofal Plant yn Gweithio' (Rhan 2) yn cefnogi gweithlu amrywiol ac yn galluogi pobl na fyddent o reidrwydd wedi dilyn gyrfa yn y blynyddoedd cynnar a gofal plant i ddod i'r sector hwn.

Mae parhad gofal a dewis rhieni yn hanfodol yn y blynyddoedd cynnar ac mae'r gwahaniaeth mewn cyfraddau cyllido rhwng y Cyfnod Sylfaen a'r Cynnig Gofal Plant yn gwneud hyn yn anoddach i ddarparwyr nad ydynt yn cael eu cynnal. Mae'r peilot o alinio cyfraddau cyllido'r Cyfnod Sylfaen â'r Cynnig Gofal Plant yn Sir y Fflint yn gam i'w groesawu ac edrychwn ymlaen at ganlyniad y peilot hwn. Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn cynnal eu hymrwymiad i beidio â thanseilio'r ddarpariaeth bresennol trwy'r Grantiau Cyfalaf Cynnig Gofal Plant. Bydd cynnig grantiau bach i leoliadau nas cynhelir yn helpu i gefnogi'r sector.

Mae'r arolwg hwn wedi canfod tystiolaeth o gostau staffio yn codi ar gyfraddau ymhell uwchlaw chwyddiant felly mae'n bwysig i Lywodraeth Cymru barhau i fonitro costau y mae'r sector yn eu hwynebu. Mae'n hanfodol sicrhau bod cyfraddau cyllido yn caniatáu i ddarparwyr dalu costau darparu gofal plant fforddiadwy, o ansawdd uchel, hygyrch i gefnogi rhieni a theuluoedd yng Nghymru.

Hoffai NDNA Cymru ddiolch i'r holl leoliadau am gymryd yr amser i gwblhau'r arolwg hwn, byddwn yn parhau i gefnogi a chynrychioli'r sector trwy newidiadau i'r maes polisi ac unrhyw heriau sydd o'n blaenau.

Argymhellion

Er mwyn cefnogi'r sector nad yw'n cael ei gynnal, mae NDNA Cymru yn argymhell:

- Dylai Llywodraeth Cymru barhau i fonitro costau cynyddol cyflwyno'r Cynnig Gofal Plant i Gymru, gan gynnwys cynnydd mewn costau staffio sy'n uwch na chwyddiant. Dylid adolygu hyn yn flynyddol i sicrhau bod y cyfraddau cyllido yn cael eu cadw yn unol â chostau cynyddol i ganiatáu i ddarparwyr gefnogi eu gweithlu i ddarparu gofal plant fforddiadwy, o ansawdd uchel, hygyrch i gefnogi rhieni a theuluoedd yng Nghymru
- Bydd peilot Sir y Fflint o alinio cyfradd fesul awr y Cyfnod Sylfaen â'r gyfradd Cynnig Gofal Plant yn cefnogi'r gweithlu i ddarparu addysg blynyddoedd cynnar o ansawdd uchel. Yn dilyn y peilot, dylid alinio cyfraddau fesul awr y Cyfnod Sylfaen yn genedlaethol a fydd yn cefnogi cynaliadwyedd y sector nas cynhelir ac yn sicrhau eu bod yn gallu cynnig dewis i rieni a buddsoddi ymhellach mewn uwchsgilio eu gweithlu
- Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fuddsoddi yn y gweithlu mewn perthynas â datblygiad proffesiynol parhaus, (DPP) i gefnogi dal gafael ar staff cymwys Lefel 3, dilyniant gyrfa a phroffesiynoli'r gweithlu blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae.
- Er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r heriau recriwtio mae Llywodraeth Cymru yn parhau â'i chefnogaeth i raglenni recriwtio gweithredol a chynhwysol sy'n gweithio gydag unigolion sydd â'r priodoleddau, yr egwyddorion a'r gwerthoedd cywir i weithio yn y sector gofal plant, blynyddoedd cynnar a chwarae, gan gefnogi gweithlu amrywiol a medrus.
- Fel rhan o unrhyw ymgyrch recriwtio blynyddoedd cynnar, dylai Llywodraeth Cymru ystyried hyrwyddo effaith addysgol gweithio ym maes gofal plant yn y sector nas cynhelir trwy addysgu yn seiliedig ar chwarae.



★Meddwl mwy disglair
ar gyfer y blynyddoedd cynnar



Cymru

National Day Nurseries Association

NDNA Cymru

Swyddfa 3, Crown House, 11 Well Street
Ruthin, Sir Ddinbych, LL15 1AE

01824 707823

wales@ndna.org.uk

NDNA Head office

National Early Years Enterprise Centre
Longbow Close, Huddersfield, HD2 1GQ

01484 407070

info@ndna.org.uk



@NDNATalk



/ndna.org.uk



National Day Nurseries Association

www.ndna.org.uk

Company Limited by Guarantee Registered in England. Company No. 3738616 VAT No. 123353839.

NDNA is a registered charity in England and Wales (1078275) and Scotland (SCO40610) Copyright

©NDNA™ All rights reserved 2019. Published September 2019